## Gweddi ar Thema Anturiaeth y Cymry a adnabu Grist y Pasg

Ein Tad, yr Hwn sydd bob amser wrth law i wrando ein cri, cynorthwya ni i'th addoli mewn dyddiau cyffrous ac anturus, o Tsieina i Ganada, o Awstralia i Awstria, o Seland Newydd i Ynys yr Iâ. Yng nghanol pob cyffro dysg ni i gofio am antur ffydd ein cenhadon a'n hefengylwyr. Diolchwn am bob hanes sydd gennym am Gymry a adawodd gysuron y byd a'th ddilyn Di pan olygai hynny beryglon, gwrthwynebiad, erledigaeth a chasineb. Cofiwn am hanes cynnar Abraham, a adawodd Ur y Caldeaid heb wybod i ble'r oedd yn mynd, ond ei fod yn dilyn d'arweiniad ac yn gwybod y câi dy gwmni. Bendigwn di am Gristnogion pob oes a wynebodd y dieithr a'r anodd yn enw anturiaeth dilyn Iesu.

Am John Davies o Faldwyn a fentrodd i Tahiti ac aros yno weddill ei oes, 55 o flynyddoedd, gan osod seiliau i'r Ffydd ymhlith pobl yr ynys.
Diolchwn i Ti.

Am Griffith John a lafuriodd heb laesu dwylo ymhlith Tsieineaid yng ngwlad fawr Tsieina.
Diolchwn i Ti.

Am Timothy Richards o Ffaldybrenin a wynebodd yr un sialens yn Tsieina gan gyflawni gwaith sy'n dal yn berthnasol.
Diolchwn i Ti.
Am Thomas Jones, y cenhadwr cyntaf ym Mryniau Casia yng ngogledd-ddwyrain India, a osododd seiliau cadarn i iaith y Casiaid: seiliau nad oedd yno cyn ei ddyfodiad ef yn 1840.
Diolchwn i Ti.

Am bawb a gymerodd ran yn antur y Ffydd o ennill y byd i Grist.
Diolchwn i Ti.

Maddau i ni, O Arglwydd, ein bod yn gallu bod mor fodlon yn ein cynulleidfaoedd a'n traddodiadau cysurus, nes methu gweld yr angen o fentro yn Dy Enw. Maddau i ni fod hunanoldeb a thrachwant cymdeithas faterol yn gadael cymaint o'i ôl ar ein ffordd o feddwl. Deffro ni i fentro o'r newydd dros Grist y Groes. Amen.